Yn ystod y prynhawn estynwyd croeso i Gymdeithas yr Ymddeolwyr i'n plith a pherfformiwyd y cyflwyniad 'Yr Ifaciwis' iddynt. Yna cafodd plant dosbarth 4 gyfle i gymdeithasu â'r genhedlaeth hŷn uwchben paned o de, mins peis a bisgedi. Ein diolch diffuant i bawb a gynorthwyodd tuag at lwyddiant y prynhawn ac yn arbennig i'r ymddeolwyr am eu haelioni tuag at yr ysgol.

Aeth nifer o'r plant i gystadlu yng ngala Clwb Nofio Aberystwyth a chafodd Jason Davies, Sion James, James Scurlock, Sara Beechey, Louise Foley, Lynne Hughes a Ruth Evans fedalau am eu hymdrechion yn y cystadlaethau cyfnewid.